
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 1411 (Cy. 367)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Traffordd yr M48
(Ffyrdd Ymadael tua'r Dwyrain a
thua'r Gorllewin wrth Gyffordd 2
(Cylchfan Newhouse), Cas-gwent)
(Terfyn Cyflymder 40 mya) 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn sy'n gosod terfyn cyflymder uchaf o 40 milltir yr awr (yn lle'r terfyn cyflymder cyffredinol o 70 milltir yr awr a osodir ar draffyrdd gan Rheoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974 (O.S. 1974/502)) ar y darnau o ffyrdd ymadael traffordd yr M48 a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu YGangenOrchmynion@llyw.cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 1411 (Cy. 367)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Traffordd yr M48
(Ffyrrd Ymadael tua'r Dwyrain a
thua'r Gorllewin wrth Gyffordd 2
(Cylchfan Newhouse), Cas-gwent)
(Terfyn Cyflymder 40 mya) 2021

Gwnaed 10 Rhagfyr 2021

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 13 Rhagfyr 2021

Yn dod i rym 12 Ionawr 2022

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 17(2), (3) a (3ZAA) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), ac ar ôl ymgynghori ag unrhyw sefydliadau cynrychioladol y tybiwyd eu bod yn briodol yn unol ag adran 134(10) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Traffordd yr M48 (Ffyrrd Ymadael tua'r Dwyrain a thua'r Gorllewin wrth Gyffordd 2 (Cylchfan Newhouse), Cas-gwent) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2021 a deuant i rym ar 12 Ionawr 2022.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "traffordd yr M48" yw traffordd yr M48 De Swydd Gaerloyw i Dde Cymru.

(1) 1984 p. 27. Diwygiwyd adran 17(2) gan baragraff 28(3) o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrrd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22), a pharagraff 25 o Atodlen 4 i Ddeddf Traffig Ffyrrd 1991 (p. 40), ac Atodlen 8 iddi. Mewnosodwyd adran 17(3ZAA) gan adran 26(2) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).

Gosod terfyn cyflymder

2. Ni chaiff neb yrru cerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o draffordd yr M48 a bennir yn yr Atodlen.

Lee Waters

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, o dan
awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o
Weinidogion Cymru
10 Rhagfyr 2021

YR ATODLEN Rheoliad 2

DARNAU O DRAFFORDD YR M48

Y darnau a ganlyn o draffordd yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cylchfan Newhouse) yn Sir Fynwy—

- (a) y ffordd ymadael tua'r gorllewin o bwynt 200 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Newhouse hyd at ei chyffordd â'r brif gerbyttfordd gylchredol, a
- (b) y ffordd ymadael tua'r dwyrain o bwynt 250 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Newhouse hyd at ei chyffordd â'r brif gerbyttfordd gylchredol.